YSGOL ABERCONWY

Rhagfyr 1af 2021

Annwyl Riant/Ofalwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch diweddaru am ein gweithdrefnau diogelwch yn yr ysgol, yng ngoleuni cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yr wythnos hon, sydd i'w gweld yma: https://gov.wales/written-statement-omicron-variant-concern-school-operations.

Fel y gwyddoch, hyd yma y tymor hwn, rydym wedi bod yn cadw pawb yn ddiogel trwy wneud y canlynol:

- gwirio am symptomau Covid-19 bob dydd,
- cadw system unffordd mewn rhai ardaloedd o'r ysgol,
- gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol, coridorau ac ar gludiant ysgol.
- trefnu byrddau yn gyffredinol i wynebu'r tu blaen mewn ystafelloedd dosbarth, a
- glanhau arwynebau mewn ystafelloedd dosbarth, coridorau a'r ffreutur yn rheolaidd.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, gofynnir yn awr i bob plentyn ysgol uwchradd yng Nghymru wisgo gorchudd wyneb mewn ystafelloedd dosbarth lle na allant gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn her ychwanegol ac yn peri anesmwythdra i fyfyrwyr yn yr ysgol, ond rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth wrth i ni roi'r mesurau ychwanegol hyn ar waith er budd diogelwch pawb rhag straen diweddaraf y coronafeirws.

Rwy'n deall y bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu ar ddiwedd y tymor hwn, a byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau i'n gweithdrefnau mewn da bryd ar gyfer dechrau'r tymor newydd ym mis Ionawr.

Os yw eich plentyn wedi'u heithrio rhag gwisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol, yna gofynnwn eu bod yn rhoi gwybod i'r tîm bugeiliol os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod, ac yn ystyried cario cerdyn eithrio neu laniard.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa o ran gorchuddion wyneb, ond o ran y mesurau eraill sydd gennym ar waith, mae'n parhau i fod yn bwysig eich bod chi a'ch plant yn gwneud y canlynol:

- **Bod yn effro i symptomau newydd.**
  Os yw eich plentyn yn dechrau teimlo'n sâl, waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau, dylai eich plentyn aros i ffwrdd o'r ysgol a chael prawf PCR. Gallwch archebu prawf PCR ar-lein trwy wefan y GIG ar http://www.gov.uk/get-coronavirus-test neu trwy ffonio 119.

- **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ysgol**.
  Rhowch wybod i'r ysgol os yw eich plentyn yn sâl gyda symptomau COVID-19, argymhellir eich bod yn trefnu prawf ac yn rhoi gwybod i ni am y canlyniadau ar ôl eu derbyn.

- **Defnyddio Profion Llif Unffordd**
  Rydym yn cynghori bod eich plentyn yn cymryd profion llif unffordd (LFT) rheolaidd ar nos Sul a nos Fercher, gan gofnodi'r canlyniadau ar-lein Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK (www.gov.uk). Cysylltwch â'r ysgol os oes angen mwy o brofion arnoch, neu gallwch archebu cyflenwad yn rhad ac am ddim i'ch cartref o https://test-for-coronavirus.service.gov.uk/order-lateral-flow-kits/condition

- **Dal ati i olchi'ch dwylo'n rheolaidd.**
  Mae hon yn dal i fod yn ffordd bwysig o gyfyngu ar ledaeniad llawer o heintiau, gan gynnwys COVID-19.

- **Dal ati i leihau eich cysylltiadau ehangach a chadw'ch hun a'ch teuluoedd yn ddiogel.**

Bydd llawer ohonoch yn gwybod ein bod wedi cymryd y cam ychwanegol o ofyn i staff a myfyrwyr aros gartref os yw aelod o'u cartref wedi profi'n bositif neu os oes ganddynt symptomau - rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod y tebygolrwydd bod aelod o deulu person sydd wedi profi'n bositif yn dal y feirws yn uwch nag ydyw ar gyfer cysylltiadau eraill, ac felly rydym yn teimlo bod hwn yn gais synhwyrol o dan yr amgylchiadau. Lle bo modd, rydym wedi parhau i osod gwaith i fyfyrwyr sydd yn y sefyllfa hon, a gobeithiwn fod hyn wedi bod yn ddefnyddiol i chi.

Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar ichi am eich holl gefnogaeth i'r ysgol, ei staff a'i myfyrwyr yn y cyfnod heriol hwn, ac mae croeso i chi gysylltu os gallwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

Yn garedig,

Ian Gerrard

Pennaeth.


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE